

Arena Motorpoint, Caerdydd
9 Hydref 2019 9:30am - 3pm & 4pm - 6:30pm
10 Hydref 2019 9:30am - 3pm

Venue Cymru, Llandudno
16 Hydref 2019 5pm - 7pm
17 Hydref 2019 9:30am - 3pm



MYNEDIAD AM DDIM A CHYFRANIAD AT FWRSARI TEITHIO

ARCHWILIWCH SGILIAU'R DYFODOL A BYDDWCH YN BAROD AM WAITH I SKILLSCYMRU

TREFNIR GAN

prospects | Events

Cazbah
MARKETING EVENTS
MARCHNATA-DIGWYDDIADAU

NODDWR Y THEATR
SGILIAU YN 2018


Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

NODDWR Y PENTREF
ADEILADU YN 2018

 **CONSTRUCT**
Industry led, funded by the CITB levy 

CEFNOGIR GAN


Gyrfa Cymru
Careers Wales


Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Cronfa Cymorthasol Ewrop
European Social Fund

BETH YW SKILLSCYMRU?

Mae SkillsCymru yn ei gwneud yn bosib i filoedd o bobl ifanc ddychmygu llwybr dyfodol eu gyrfa gyda gweithgareddau cwbl ryngweithiol.

Ers 2010, mae SkillsCymru yn dod â chyflogwyr o ystod o ddiwydiannau, prifysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant ynghyd i helpu pobl ifanc i archwilio'r sgiliau bydd arnyn nhw eu hangen i fod yn barod am fyfwrdd gwaith.




2
ddigwyddiad



11,000
o ymwelwyr



102
o ysgolion a cholegau



Pobl **14-24**
blwydd oed



120
o arddangoswyr

(56% yn gyflogwyr)



Ymwelwyr o
ogledd a de
Cymru



Cafodd o **17,594**
lythyrau eu hanfon at rieni/gofalwyr
pobl ifanc gyda gwahoddiad personol i
ymweld.

PAM YMWELD Â SKILLSCYMRU

SkillsCymru yw arddangosfeydd pennaf sgiliau, gyrfaoedd a phrentisiaethau Cymru. Mae'r digwyddiadau yn cynnig y cyfle i bobl 14-24 oed, eu hathrawon, arweinwyr gyrfaoedd a'u rhieni a theuluoedd gael profiad o swyddi'r dyfodol i gyd mewn un lle. Mae natur ryngweithiol y digwyddiad yn gadael i bobl ifanc roi cynnig ar sgiliau newydd a chreu'r cysylltiad rhwng y sgiliau hynny a gyrfaoedd posibl y dyfodol.

Rydym yn argymhell bod ysgolion, colegau a chweched dosbarthiadau yn dod â myfyrwyr Blynyddoedd 10, 11, 12 a 13. Ymhlith yr ymwelwyr eraill mae israddedigion, graddedigion diweddar, oedolion ifanc, NEETs, rhieni, gofalwyr, athrawon ac arweinwyr gyrfa.

Mae SkillsCymru yn addas i bobl ifanc o bob gallu ac uchelgais p'un a ydyn nhw'n chwilio am swydd neu brentisiaeth, addysg bellach neu uwch, lleoliadau gwaith neu gyngor ac arweiniad gan arbenigwyr.

Rhesymau dros ddod

- Helpu i sicrhau bod eich myfyrwyr yn cael cwrdd â chyflogwyr, darparwyr addysg bellach ac uwch a darparwyr hyfforddiant mewn modd ystyrlon i gyd dan un to.
- Rhoi i'ch myfyrwyr fynediad i ystod amrywiol o gyfleoedd gyrfa, gweithgareddau ymarferol, arddangosiadau, y cyfle i ennill sgiliau cyflogadwyedd a rhyngweithio wyneb yn wyneb â phroffesiynolion gyrfaoedd ac arbenigwyr diwydiant.
- Rhwydweithio â chydweithwyr a chreu cysylltiadau ag arddangoswyr sy'n gallu'ch helpu wrth ddarparu cyngor ac arweiniad gyrfa.

- Derbyn adnoddau am yr ystafell ddosbarth, wedi eu datblygu gan arbenigwr addysg gyrfaoedd, i helpu'ch myfyrwyr i fanteisio i'r eithaf ar eu hymweliad. Mae'r adnoddau hyn yn cael eu llunio gydag athrawon mewn golwg, gan roi'r dewis i chi faint o fanylion i'w trafod o flaen y digwyddiad a chan gymryd amserlenni prysur i ystyriaeth.
- Derbyn cyfraniad at fwrsari teithio i helpu tuag at gostau teithio'ch grŵp (mae telerau ac amodau'n gymwys).



SUT I DREFNU YMWELIAD EICH GRŴP

CAM 1: PENDERFYNU FAINT O FYFYRWYR I DDOD Â NHW

Does dim terfyn ar nifer y myfyrwyr y cewch ddod â nhw, ac rydym ni'n annog archebion grŵp mawr (hyd yn oed grwpiau blwyddyn cyfan) er mwyn sicrhau bod cynifer o fyfyrwyr â phosibl yn elwa ar ymweld â SkillsCymru.

CAM 2: DEWIS Y DYDDIAD A'R AMSER GORAU

Yn nigwyddiadau Llandudno a Chaerdydd fel ei gilydd, mae gennym ni noson bwrbasol i rieni a gofalwyr eu mynychu gyda'u plant i ddysgu am yrfaeodded y dyfodol. Rydym ni'n anfon gwahoddiadau at rieni a gofalwyr yn yr ardal leol i'r nosweithiau hyn ac maent yn cyd-fynd yn berffaith â'r dyddiau agored mae myfyrwyr yn eu mynychu fel rhan o grŵp. Bydd slot dwy awr yn cael ei ddyfarnu ar gyfer ymweliad eich grŵp ar adeg sy'n fwyaf addas i'ch anghenion, ond mae slotiau'n cael eu cadw ar sail y cyntaf i'r felin a gaiff falu felly gwnewch yn siŵr eich bod yn neilltuo lle'n gynnar i osgoi siom.

Caerdydd

Dydd Mercher 9 Hydref 2019 | 9.30am – 3.00pm

Bore	9:30am-11:30am	10:00am-12:00pm	10:30am-12:30pm	11:00am-1:00pm	11.30am-1:30pm
Prynhawn	12:00pm-1:00pm	12:30pm-2:30pm	1:00pm-3:00pm		

Dydd Iau 10 Hydref 2019 | 9.30am – 4.00pm

Bore	9:30am-11:30am	10:00am-12:00pm	10:30am-12:30pm	11:00am-1:00pm	11.30am-1:30pm
Prynhawn	12:00pm-1:00pm	12:30pm-2:30pm	1:00pm-3:00pm		

Llandudno

Dydd Iau 17 Hydref | 9.30am – 4.00pm

Bore	9:30am-11:30am	10:00am-12:00pm	10:30am-12:30pm	11:00am-1:00pm	11.30am-1:30pm
Prynhawn	12:00pm-1:00pm	12:30pm-2:30pm	1:00pm-3:00pm		

CAM 3: CADWCH LE NAWR



Ar ôl i chi gadw lle, byddwn yn cysylltu â chi am yr adnoddau ystafell ddsbarth a'r cyfraniad at fwrsari teithio (os yw'n berthnasol)